**Cyngor Cymuned Cilymaenllwyd**

**Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd nos Fawrth, 25 Tachwedd 2025 yng Nghaffi Beca am 7.30pm**

**Yn bresennol:** Russell Davies (Cadeirydd), Anthony Jenner, Dennis Jones, Michael Fussell, Ffion John, Tudur Lewis, Julian Williams, Cyng Dorian Phillips, Janice Morgan (Clerc)

1. **Ymddiheuriadau:** Anthony Eynon, Rebecca Jaimangal-Jones (Is-gadeirydd)

Croesawodd RD bawb i'r cyfarfod.

2. **Datganiadau o ddiddordeb:** Dim

3. **Cofnodion y cyfarfod diwethaf 30/9/2025:**

- Cynigiwyd bod cofnodion cyfarfod y Cyngor Cymuned a gynhaliwyd ar 30/9/25 yn gywir gan TL ac eiliwyd gan JW.

**Materion yn codi o'r cofnodion:**

- **Cam gweithedu: Pawb i wrando ar y recordiad a darllen y cyflwyniad a chadarnhau mewn e-bost eu bod wedi gwneud.**
  Bydd JM yn anfon y cyflwyniad a'r recordiad i bawb eto ynghyd â manylion y cod pas er mwyn cael mynediad i'r recordiad.

- **Cam gweithredu: JM i roi copïau o fapiau'r llwybrau troed sy wedi cael eu hadfer ar y wefan a QR côd ar yr hysbysfyrddau**
  Dywedodd JM ei bod wedi anfon y mapiau a'r wybodaeth at Jamie King a fydd yn eu lanlwytho ar y wefan cyn gynted. Unwaith byddan nhw ar y wefan, bydd JM wedyn yn rhoi hysbysiad, yn cynnwys côd QR, ar hybysfwrdd y cyngor.

- **Cam gweithredu: JM i anfon y ffurflenni cais at bawb ganol Tachwedd ar gyfer cyfarfod Tachwedd lle bydd y Cyngor yn eu hystyried am gymorth ariannol.**
  Cadarnhaodd JM ei bod wedi anfon y ffurflenni cais allan at bawb ac ar yr agenda heno.

- **Cam gweithredu: JM i fwrw ymlaen â'r trefniadau i allu gwneud taliadau BACS**
  Cadarnhawyd y byddai TL yn gweithredu fel yr ail lofnodwr awdurdodedig ar gyfer taliadau BACS. Bydd JM a TL yn cwblhau'r trefniadau angenrheidiol i alluogi taliadau BACS yn y dyfodol agos.

- **Cam gweithredu: RD a DP i gwrdd ar bwys carreg goffa Terfysg Beca ddydd Llun nesa am 10yb i weld beth sydd angen o ran lle i dynnu mewn yn y lle cyntaf**
  Fe wnaeth RD a DP gwrdd â JMorris i drafod y posibilrwydd o greu man parcio y gellir tynnu mewn gyferbyn â charreg goffa Terfysg Beca. Mae JMorris ac RWilliams yn cefnogi'r cynnig. Dywedodd DP fod yr Adran Briffyrdd wedi dweud y byddai angen cytundeb Adran 278 a chaniatâd cynllunio ar gyfer y cynnig oherwydd ei leoliad ar y briffordd. Byddai angen i'r lle tynnu mewn hwn gynnwys bysiau a darparu man gollwng diogel.

- **Cam gweithredu:**
- **MF i ymchwilio i'r broses Adran 278, gofynion dylunio, a'r angen posibl am balmant, ac i gysylltu â'r Pennaeth Priffyrdd ynghylch y gofynion cychwynnol, gan gynnwys y posibilrwydd o wneud cyn-gais.**
- **DP i edrych mewn i berchnogaeth y tir lle mae'r gofeb arno.**

- **Camau gweithredu:**
- **DP i edrych mewn i Bryn Haul gan fod y tŷ wedi bod yn wag ers blynyddoedd ac mewn cyflwr gwael iawn.**
- **DP i edrych mewn i'r pentwr teiars ar y chwith cyn y cyffordd Efailwen - Maenclochog.**

  Bydd DP yn rhoi diweddariad ar y ddau fater yn y cyfarfod nesaf.

- **Cam gweithredu: JM i anfon dyddiad allan i rai Cynghorwyr gerdded llwybrau'r prosiect i weld a oes unrhyw beth sydd angen sylw.**

  Oherwydd y tywydd gwlyb iawn dros y misoedd diwethaf, ni fu'n bosibl cynnal taith gerdded ar hyd y llwybrau troed. Fodd bynnag, dywedodd RD bod: y coed sydd wedi cwympo ar lwybr troed Pantyrodyn nawr wedi cael eu symud; roedd gwartheg wedi mynd ar y llwybrau troed, gan achosi difrod a llanast sylweddol; ac mae tirlithriad bach wedi digwydd ar un rhan o'r llwybrau, a bydd angen ei glirio.

  Nododd RD hefyd dyfiant sylweddol ar hyd y llwybrau troed, yn enwedig drysni, y bydd angen eu monitro a'u cadw dan reolaeth.
- **Cam gweithredu: Cyng DP i gysylltu â Swyddog Cynnal a Chadw Llwybrau Troed, Kirsty Styles, ynghylch y gwaith cynnal a chadw sydd ei angen ar y llwybrau troed.**

- **Cam gweithredu: JM i ddrafftio'r adroddiad bioamrywiaeth blynyddol i'w gymeradwyo gan y Cyngor yng nghyfarfod mis Tachwedd.**

  Dywedodd JM fod yr adroddiad wedi'i ddrafftio a'i ddosbarthu i'r aelodau i gyd i gael sylwadau ac mae wedi'i gynnwys ar yr agenda i'w drafod a'i gymeradwyo.

- **Cam gweithredu: JM i roi gwybod i'r Grŵp Hanes Lleol bod y Cyngor wedi cytuno talu am siaradwr gwadd i roi cyflwyniad yn un o'u cyfarfodydd.**

  Dywedodd JM ei bod wedi hysbysu'r Grŵp Hanes Lleol bod y Cyngor wedi cytuno i dalu cost siaradwr gwadd i roi cyflwyniad yn un o'u cyfarfodydd. Fodd bynnag, ni threfnwyd siaradwr gwadd, ac yn lle hynny cynhaliodd y Grŵp ei gyfarfod diweddaraf yng Nghaffi Beca gyda chost o £25 am logi'r lleoliad. Cymeradwyodd y Cyngor y gost hon.

**4. Gohebiaeth**

- Derbyniwyd dau gais am gymorth ariannol yn ddiweddar:
- Apêl Teganau Nadolig Cyngor Sir Caerfyrddin 2025
- Urdd Gobaith Cymru yn gofyn am gymorth i'w Apêl Cronfa Cyfle i Bawb 2026

  Anfonwyd ffurflen gais cymorth ariannol y Cyngor at y ddau sefydliad. Mae'r ffurflenni wedi'u llenwi a'u dychwelyd a byddan nhw'n cael eu hystyried gan y Cyngor.
- Rhannwyd gwybodaeth am nifer o ymgynghoriadau a chyfleoedd hyfforddi gyda phawb.

**5. Diweddariad cyllid ac arwyddo sieciau**

- Diweddariad awdit: dywedodd JM fod Archwilio Cymru wedi rhoi barn amodol; roedd y rhan fwyaf o feysydd yn foddhaol, ond mae angen gweithredu mewn rhai meysydd e.e. roedd rhai amrywiadau ariannol heb eu hesbonio, ni chyhoeddwyd y cynllun

hyfforddi ac roedd gwariant Adran 137 yn fwy na'r terfyn. Nid yw'r materion hyn yn effeithio ar y farn gyffredinol ond mae angen mynd i'r afael â nhw.

- Mae hysbysiad o archwiliad cyfrifon 2024/25 wedi'i gyhoeddi ar wefan y Cyngor, ar Facebook, ac ar yr hysbysfwrdd yn nodi bod gan y cyhoedd hawl i weld y cyfrifon os maen nhw'n dymuno.

- Diweddariad cyllid: o'r 21ain Tachwedd, balans y cyfrif cyfredol yw £7,188.47. Mae'r sieciau i gyd ers y cyfarfod diwethaf wedi'u prosesu.

- Arwyddo sieciau:
  - Yswiriant Clear Councils: £779.76 (£621.20 y llynedd)
  - Cyflog y Clerc (ar gyfer 2il chwarter Gorff-Medi): £503.75
  - Modiwl 6 Cyllid Hyfforddiant Un Llais Cymru (JM wedi mynychu): £42.00
  - Llogi ystafell Caffi Beca (cyfarfod 30/11/25): £25.00
  - Llogi ystafell Caffi Beca (Cyfarfod Grŵp Hanes Lleol ym mis Tachwedd): £25.00
  - Cyfanswm y taliadau: £1,375.51
  - Balans sy'n weddill ar ôl taliadau: £5,812.96

- Cofrestr Asedau 25/26: adolygodd y Cyngor y gofrestr asedau a chadarnhaodd ei bod yn gywir ac yn gyfredol. Cafodd ei gymeradwyo, yna ei lofnodi a'i ddyddio gan y Cadeirydd.

## 6. Ceisiadau Cymorth Ariannol 25/26

- Derbyniwyd 11 cais am gymorth ariannol. Mae 8 wedi nodi symiau, gyda chyfanswm o £5,750, ac mae 3 yn gofyn am gyfraniadau. Gwneir cyfraniadau o dan Adran 137 er budd y gymuned. Gall y Cyngor wario £11.10 fesul etholwr (£10.81 y llynedd), sydd, ar gyfer 643 o etholwyr, yn rhoi cyfanswm o £7,137.30. Mae £400 eisoes wedi'i wario o dan Adran 137 eleni, gan adael £6,737.30 ar gael i gefnogi sefydliadau. Ar ôl ystyried yn ofalus sefyllfa ariannol bresennol y Cyngor a thaliadau a ragwelir ar gyfer gweddill y flwyddyn, cytunwyd ar y symiau canlynol:

| **Sefydliad** | **Swm y gofynnwyd amdano** | **Swm a ddyfarnwyd** |
|---|---|---|
| Canolfan Gymdeithasol Ffynnonwen | £500 | £500 |
| Cylch Meithrin Ffynnonwen | £2,000 | £750 |
| Eglwys Llanglydwen | £500 | £350 |
| Eisteddfod Y Garreg Las 2026 | £1,500 | £1,000 |
| Y Cardi Bach | £500 | £500 |
| Urdd Gobaith Cymru | Unrhyw swm | £100 |
| Marie Curie Cymru | Unrhyw swm | £150 |
| Ambiwlans Awyr Cymru | £200 | £200 |
| Cylch Cinio'r Henoed Llandisilio a'r Cyffiniau | £250 | £250 |
| Ysgol Beca | £300 | £300 |
| Apêl Teganau Nadolig Sir Gâr | Unrhyw swm | £100 |
| Cyfanswm | | £4,200 |

- **Cam gweithredu: JM i wneud y taliadau cymorth ariannol i'r 11 sefydliad fel y cytunwyd gan y Cyngor**

## 7. Cynllunio

- Cyflwynwyd un cais cynllunio ers y cyfarfod diwethaf:

- PL/10151 - newid canopi a phympiau tanwydd gorsaf betrol Glandy Cross, Efailwen, Clunderwen, SA66 7XB

- Adolygodd y Cyngor y cais. Er nad yw'n gwrthwynebu'r datblygiad, mynegwyd pryderon ynglŷn â gwelededd a diogelwch y ffordd ar gyffordd Glandy Cross, yn enwedig ar gyfer modurwyr o Bantycaws a cherbydau mwy o faint.
- **Cam gweithredu: JM i ddrafftio ymateb yn amlinellu pryderon y Cyngor a'i ddosbarthu i'r holl aelodau i'w gymeradwyo cyn ei gyflwyno.**

## 8. Diweddariad y Cynghorydd Sir

- Rhoddodd y Cyngh DP y diweddariad canlynol:
  - Roedd gan yr Adran Briffyrdd fynediad at beiriant 'patsho' ffyrdd am fis, ac yn ystod y cyfnod hwnnw roedd DP yn gallu cael mynediad iddo. O ganlyniad, mae'r ffordd o Bantycaws i Langlydwen wedi cael ei gwella ac mae nawr mewn cyflwr llawer gwell.
  - Mae problemau yn parhau ar y ffyrdd yn Hebron, uwchben Rhos, a rhwng Login a Phantycaws, gan gynnwys tyllau yn y ffyrdd a draeniau wedi'u blocio (hefyd ar bwys Coedllys). Mae DP wedi darparu rhestr o faterion i'r Adran Briffyrdd; mae peth gwaith wedi cael ei wneud a disgwylir ymweliadau pellach.
  - Adroddwyd bod cryn dipyn o ddŵr wedi cronni ar sgwâr Efailwen, Feidr Sion, Rhydymerydd, Pantyblodau, a Phantycaws achos nid yw'r pibellau'n gweithio'n iawn. Mae'r profion draeniau yng Nghalfaria Login wedi dangos bod y draeniau wedi cael ei difrodi.
  - Nid oes diweddariad wedi'i dderbyn ynglŷn â phryderon am oryrru yng Nglandy Cross.
  - Mynychodd DP gyfarfod gyda Heddlu Dyfed-Powys. Anogwyd yr aelodau i gofrestru ar gyfer ap What3Words a DPP Connect.
  - Nodwyd tri eiddo gwag hirdymor ym Mhlascrwn (Login) a Brynhaul (Glandy Cross).
  - **Cam gweithredu: DP i ymchwilio i berchnogaeth eiddo Plascrwn a Brynhaul.**
  - Adroddwyd bod coed a changhennau'n hongian drosodd yn dilyn yr eira diweddar, yn enwedig ar bwys Nebo ac ar hyd ffordd Efailwen – Glandy Cross. Adroddwyd bod coetir wedi cwympo ar bwys y gyffordd. Cadarnhawyd mai'r perchnogion tir sy'n gyfrifol am y gwaith clirio hwn.
  - **Cam gweithredu: DP i ddilyn lan ar y coed a'r canghennau sy'n hogian drosodd ar bwys Nebo, Glandy Cross, ac ar y ffordd gefn o Efailwen heibio Clungwyn, Pantglas, a Llwynyrebol.**
  - Mae bagiau du wedi ailymddangos yn y gilfan yn Ynys Fach.

## 9. Iechyd, Diogelwch a Lles

- Dywedodd JM fod angen adnewyddu yswiriant blynyddol y Cyngor ar 3/12/25. Derbyniwyd dyfynbris o £779.76 gan Clear Council, cynnydd o £158.56 ers y flwyddyn flaenorol. Cytunwyd ar hyn gan y Cyngor.

## 10. Bioamrywiaeth

- Adroddiad Bioamrywiaeth: cyflwynodd JM ddrafft o'r adroddiad Bioamrywiaeth, a ddosbarthwyd yn flaenorol i'r aelodau, yn amlinellu gwaith bioamrywiaeth y Cyngor dros y ddwy flynedd ddiwethaf wrth gyflawni ei ddyletswydd Adran 6. Trafodwyd a chymeradwywyd yr adroddiad, a chytunwyd y byddai'n cael ei gyhoeddi ar wefan y Cyngor.
- Polisi Bioamrywiaeth: cyflwynodd JM ddrafft o'r Polisi Bioamrywiaeth, a ddosbarthwyd yn flaenorol i'r aelodau, yn nodi ymrwymiad y Cyngor i gyflawni ei ddyletswyddau o dan Adran 6 o Ddeddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016. Trafodwyd a chymeradwywyd y polisi.

**11. Unrhyw Fater Arall**

- Cafwyd diweddariad ar werthiant Capel Hebron, gan nodi bod yr arwerthiant i fod i gau cyn bo hir a bod diddordeb allanol wedi bod. Mae Cris Tomos o PLANED wedi bod mewn cysylltiad ynglŷn â chynnig dan arweiniad y gymuned i brynu'r capel. Gall y cynnig gael ei gefnogi gan grant Perthyn o £10K a'r nod yw codi £50K trwy fenthyciadau cymunedol i alluogi'r capel i gael ei ddatblygu fel canolfan gymunedol a threftadaeth. Derbyniwyd cais yn gofyn i'r Cyngor Cymuned am lythyr o gefnogaeth. Cytunwyd y byddai llythyr o gefnogaeth yn cael ei ddarparu.
- **Cam gweithredu: JM i ddarparu llythyr o gefnogaeth ar gyfer y cynnig o ddatblygu canolfan gymunedol Capel Hebron.**
- Cynhelir noson gwis yng Nghaffi Beca Nos Wener 28/11/25 i godi arian ar gyfer y sefydliad Strôc. Anogwyd aelodau i fynychu a chefnogi'r digwyddiad.
- Bydd Pwyllgor Apêl Efailwen, Llanglydwen, Login, Cwmiles a Hebron yn cynnal noson garolau yn Nebo Nos Sul 7/12/25.

**12. Dyddiad y Cyfarfod Nesaf:** Nos Fawrth 27$^{ain}$ Ionawr 2026 am 7.30yh

*Daethpwyd â'r cyfarfod i ben gan y Cadeirydd am 9.30yh*

Arwyddwyd

Cadeirydd: TR Davies ........................................ Dyddiad: 27/01/2026